

Cysylltiadau - canllaw defnyddiol ar gyfer gwneud pethau'n iawn



**SP ENERGY
NETWORKS**

Sicrhau eich diogelwch

Pan fyddwch chi'n dymuno cysylltu â'r rhwydwaith trydan, gallwn ni gyflawni pob elfen o'ch cysylltiad o'r dechrau i'r diwedd. Neu, gallwch ddewis pwy sy'n cyflawni elfennau penodol o'r gwaith cysylltu.

Os byddwch chi'n dewis defnyddio gwasanaethau trydydd parti, bydd yn gyfrifol am:

- Y gwaith cloddio ac adfer i'r fanyleb ofynnol
- Diogelwch y gwaith cloddio, gan gynnwys amddiffynfeydd ac arwyddion rhybudd

Rydyn ni am i chi a'ch contractwr fod yn ddiogel wrth weithio ger ein ceblau a'n llinellau uwchben. I gael copiâu diweddaraf ein cofnodion ceblau, anfonwch eich manylion cyswllt, ynghyd â chynllun o'r ardal dan sylw a/neu'r cyfeiriad a'r cod post atom ni yn:



Canolbarth a De'r Alban:
requestforplansscotland@spenergynetworks.co.uk



Swydd Gaer, Glannau Mersi, Gogledd Cymru a Gogledd Swydd Amwythig:
requestforplansmanweb@spenergynetworks.co.uk

Mwy o ganllawiau i'ch cadw'n ddiogel

<https://www>



Efallai y bydd adegau lle nad yw cyfleustodau presennol yn ymddangos ar gynlluniau, neu fe allai'r cynlluniau fod yn anghywir. I gael mwy o ganllawiau ynghylch gwneud gwaith cloddio'n ddiogel, ewch i: www.spenergynetworks.co.uk/excavations

Deddf Ffyrdd Newydd a Gwaith Stryd

Bydd unrhyw waith cloddio sydd angen ei wneud ar briffordd gyhoeddus yn cael ei wneud gennym ni. Mae dyletswydd gyfreithiol arnom i roi gwybod i'r Awdurdodau Lleol a chwmnïau cyfleustodau eraill cyn i ni ddechrau gweithio - rhag ofn y caiff effaith ar eu cyfarpar.

Mae'n rhaid i ni lynu wrth gyfnodau hysbysu lleiaf cyfreithiol, felly mae'n werth cynnwys yr amserlenni hyn yng nghynllun eich prosiect. Dyma'r cyfnodau hysbysu:

- 7 diwrnod os byddwn yn cloddio mewn ardal nad yw'n sensitif i draffig neu is-ffordd
- 28 diwrnod os byddwn yn cloddio mewn ardal sy'n sensitif i draffig neu ganol dinas
- 3 mis os byddwn yn cloddio ar brif lwybr ardal traffig

Ni fyddwn yn rhoi gwybod i'r awdurdod lleol na chyfleustodau eraill nes eich bod wedi derbyn a thalu ein dyfynbris, ac wedi cytuno â ni ar ddyddiad gwaith.

Cyfrifoldebau ar y Safle

Rydyn ni'n gweithio'n galed i wneud yn siŵr ein bod yn rhagori ar ddisgwyliadau ein cwsmeriaid o ran dylunio a chyflawni. Mae ein Rheolwr Prosiect yno o'r cychwyn cyntaf, a bydd yn gweithio gyda chi er mwyn gwneud y broses cyswllt mor hawdd â phosib.

Mae'r cyfrifoldebau fel arfer yn cynnwys y canlynol:

- Sicrhau bod yr eiddo wedi cloi ac yn cadw'r gwynt a'r glaw allan
- Penodi Cyflenwr Ynni Trydan
- Gosod dwythell addas i'r eiddo
- Gosod dwythell addas ar y dyfnder cywir yn y llwybr sydd wedi'i gloddio
- Gosod bwrdd cefn yn lleoliad y mesurydd ar gyfer ein cyfarpar
- Sicrhau bod llwybr arfaethedig y ceblau yn rhydd rhag unrhyw sgaffaldiau neu rwystrau eraill
- Cyflawni unrhyw waith cloddio/adfer y cytunir arno
- Darparu a gosod ceblau cydgysylltiol rhwng y pwynt cyflenwi a'ch prif switsh.

<https://www>



Mae mwy o wybodaeth am eich cyfrifoldebau ar y safle ar gael ar ein gwefan - www.spenergynetworks.co.uk/excavations

Caniatadau a Hawliau Tir

Mae cael caniatâd trydydd parti er mwyn cael mynediad at dir rhywun arall yn gallu achosi oedi, a gall effeithio ar eich dyfynbris. Dyna pam ein bod yn gwneud popeth gallwn ni i ddylunio eich cysylltiad fel ei fod y tu mewn i ffin eich tir chi.

Os oes angen caniatâd cymydog neu drydydd parti arall arnom (fel yr Awdurdod Lleol), ni fyddwn yn gallu dechrau gweithio heb y caniatâd hwnnw. Caiff hwnnw ei roi drwy fforddfraint neu hawddfraint.

Amserlenni

Byddwn wrth gwrs yn gwneud ein gorau glas i gael y caniatâd cyn gynted ag y bo modd, serch hynny rydyn ni'n dibynnu ar gydweithrediad eich cymydogion a thrydydd parti eraill. Cadwch hyn mewn cof wrth baratoi dyddiadau cyflawni eich prosiect.

Pethau i'w cofio

Mae'r amser yn amrywio, ond gall gymryd rhwng 12 ac 16 wythnos i gael y caniatadau angenrheidiol.

- Mae prosiectau mwy cymhleth yn gallu cymryd hirach o lawer
- Dydyn ni ddim yn ceisio caniatâd nes eich bod wedi derbyn a thalu
- Mae pris ein dyfyniad yn amodol ar bob caniatâd yn cael ei roi
- Os bydd caniatadau'n cael eu gwrthod, bydd angen dyluniad a dyfynbris newydd

Angen mwy o wybodaeth?

Os bydd angen mwy o wybodaeth arnoch chi ar unrhyw adeg, mae ein timau dylunio yn falch o gynnig cymorth, a byddant yn gweithio gyda chi i ddarparu dyfynbris cost-effeithiol. Neu gallwch gysylltu â'n tîm ar y manylion isod:

E-bost: gettingconnected@scottishpower.com

Canolbarth a De'r Alban:

SP Energy Networks
320 St Vincent Street, Glasgow, G2 5AD

Ffôn: 0845 270 0785

Swydd Gaer, Glannau Mersi, Gogledd Cymru a Gogledd Swydd Amwythig

PO Box 290
Lister Dr, Liverpool
L13 7HJ

Ffôn: 0845 270 0783



**SP ENERGY
NETWORKS**